

CBAC Lefel 3

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Ymchwiliad Estynedig)





Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL (Ymchwiliad Estynedig)

Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol
ym maes gofal, chwarae, dysgu a
datblygiad plant yng Nghymru

I'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi
2020

Cynnwys

	Tudalen
Pecyn Asesu'r Ymchwiliad Estynedig	1
Gwybodaeth i Arholwyr/Gridiau Marcio CBAC	12
Dogfen Fapio	19



Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Uned 331

**Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae,
dysgu a datblygiad plant yng Nghymru**

Ymchwiliad Estynedig

Haf 20XX

Pecyn Asesu

Mae'r pecyn asesu hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth i ganolfannau
- Pecyn i Ymgeiswyr.



Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Uned 331 Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru.

Ymchwiliad Estynedig
Haf XXXX

Gwybodaeth i Ganolfannau

Paratoi ar gyfer yr asesiad

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae angen i ymgeiswyr ymchwilio i fater cyfredol mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru.

Nodir dau faes testun yn y Pecyn i Ymgeiswyr. Dylid gadael i ymgeiswyr ddewis y testun y maent am ymchwilio iddo. Mae'r meysydd testun a nodir yn eang a gall ymgeiswyr ddewis canolbwyntio eu hymchwil ar 'feysydd ffocws' penodol o fewn y testun. Dylai'r 'meysydd ffocws' hyn o'ch dewis fod yn ganolog i'r testun.

Gall athrawon drafod a rhoi adborth i'r ymgeisydd ar y testun a'r meysydd ffocws o'i ddewis ond dylai'r adborth hwn fod yn gyfyngedig i ofyn cwestiynau hanfodol i'r ymgeisydd e.e. A fydd y meysydd ffocws o'i ddewis yn ei alluogi i fynd i'r afael â'r holl dasgau a osodwyd?

Bydd angen i ymgeiswyr wneud gwaith ymchwil annibynnol gan ddefnyddio ystod o adnoddau er mwyn ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws o'u dewis. Bydd angen iddynt gasglu tystiolaeth ddigonol a dibynadwy er mwyn paratoi ar gyfer cwblhau'r tasgau rheoledig.

Dylid rhoi hyd at bythefnos i ymgeiswyr ymchwilio o'r adeg y caiff y pecyn asesu ei roi iddynt.

Dylid annog ymgeiswyr i lunio cynllun ar gyfer eu hymchwil, gan ystyried y canlynol:

- adnoddau/ffynonellau dilys, priodol, dibynadwy ac olrheiniadwy y maent yn bwriadu eu defnyddio
- sut y byddant yn casglu tystiolaeth fel rhan o'u hymchwiliad wrth baratoi ar gyfer cwblhau'r tasgau a osodwyd
- y deilliannau sy'n ofynnol ar gyfer pob tasg a osodwyd.

Gall ymgeiswyr ddiwygio'r meysydd ffocws o'u dewis o ystyried eu gwaith ymchwil os bydd eu maes/meysydd ffocws gwreiddiol yn cynnig deunydd annigonol.

Cwblhau'r tasgau rheoledig

Bydd gan ymgeiswyr **15 awr** i gwblhau'r tasgau yn yr asesiad hwn. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael mwy na'r 15 awr a roddir.

Ni ddylid rhoi **unrhyw adborth** yn ystod y 15 awr.

Caiff ymgeiswyr gyfeirio at eu hymchwil wrth gwblhau'r tasgau rheoledig. Y ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn mynd ag unrhyw ymchwil ychwanegol i'r asesiad ar ôl dechrau'r asesiad rheoledig ac mae'n rhaid i'r holl ymchwil a ddefnyddir gan yr ymgeisydd gael ei chadw gan y ganolfan tan ddiwedd y cyfnod asesu a gall CBAC ofyn amdani yn ystod y cyfnod hwn.

Rhaid i'r holl dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn gael ei chyflwyno i CBAC i'w marcio'n allanol erbyn 15 Mai XXXX.

Gwnewch yn siŵr bod pob darn o waith a gyflwynir i gael ei farcio wedi'i nodi'n glir. Argymhellir eich bod yn cynnwys enw a rhif y ganolfan a bod enwau a rhifau arholi'r ymgeiswyr yn ymddangos ar bob tudalen.



Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Uned 331

**Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae,
dysgu a datblygiad plant yng Nghymru**

Ymchwiliad Estynedig

Haf 20XX

Pecyn i Ymgeiswyr



Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Uned 331 Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal,
chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru.

Ymchwiliad Estynedig
Haf XXXX

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae angen i chi ymchwilio i fater cyfredol mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru ac ysgrifennu amdano. Bydd angen i chi ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a gafwyd o bob rhan o'r cymhwyster a'ch lleoliad gwaith.

Nodir dau faes testun yn y Pecyn hwn i Ymgeiswyr. Bydd angen i chi ddewis y testun rydych am ymchwilio iddo. Mae'r meysydd testun a nodir yn eang a gallwch ddewis canolbwyntio eich ymchwil ar feysydd penodol o fewn y testun o'ch dewis. Dylai'r meysydd ffocws o'ch dewis fod yn ganolog i'r testun.

Mae gennych gyfanswm o ddwy wythnos i gwblhau eich ymchwil.

Dylech gynllunio eich ymchwil, gan ystyried y canlynol:

- adnoddau/ffynonellau dilys, priodol, dibynadwy ac olrheiniadwy rydych yn bwriadu eu defnyddio
- sut y byddwch yn casglu tystiolaeth fel rhan o'ch ymchwiliad wrth baratoi ar gyfer cwblhau'r tasgau a osodwyd
- y deilliannau sy'n ofynnol ar gyfer pob tasg a osodwyd.

Gallwch drafod y testun o'ch dewis, y meysydd ffocws o'ch dewis a'r ymchwil rydych yn bwriadu ei gwneud â'ch athro.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar yr adnoddau y gallwch eu defnyddio wrth wneud y gwaith ymchwil hwn.

Mae'r dystiolaeth ar gyfer y dasg hon yn ddarn estynedig o ysgrifennu sydd oddeutu 5,000 o eiriau i gyd (nid yw hyn yn cynnwys gwaith cyfeirnod na llyfryddiaeth). Bydd gennych **15 awr** i lunio'r dystiolaeth hon o dan amodau rheoledig.

Ar ôl dechrau'r asesiad rheoledig, dim ond yr adnoddau canlynol y byddwch yn gallu cyfeirio atynt:

- gwybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod eich ymchwil annibynnol
- nodiadau dosbarth
- adnoddau o leoliad gwaith.

Ni chewch ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'n rhaid i'ch tystiolaeth ymdrin â'r holl dasgau a amlinellir ar dudalennau 8 a 9.

Mae'n rhaid i'ch gwaith fodloni'r gofynion canlynol:

- dylid ei gwblhau o dan amodau rheoledig
- eich gwaith eich hun ddylai fod
- ni ddylai adael yr amgylchedd arholi ar ôl i'r 15 awr ddechrau
- dylid ei gwblhau heb unrhyw fewnbwn gan athro/tiwtor.

Bydd angen i chi a phersonél awdurdodedig y ganolfan lofnodi datganiad mai eich gwaith chi yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno a'i fod wedi cael ei gwblhau o fewn 15 awr o dan amodau rheoledig.

Testunau

Mae'n rhaid i chi ddewis **un** o'r testunau canlynol i ymchwilio iddynt:

Testun 1:

Mae sawl maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Ymchwiliwch i'r ffordd y gall meysydd dysgu gwahanol gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Testun 2:

Mae plant yn elwa ar brofi llawer o wahanol fathau o chwarae.

Ymchwiliwch i'r ffordd y gall gwahanol fathau o chwarae gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae'n rhaid i chi wneud gwaith ymchwil annibynnol gan ddefnyddio ystod o adnoddau er mwyn ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws o'ch dewis. Bydd angen i chi gasglu tystiolaeth ddigonol a dibynadwy er mwyn paratoi ar gyfer cwblhau'r tasgau.

Dylai'r meysydd ffocws rydych yn eu dewis fod yn briodol er mwyn eich galluogi i ymchwilio'n ddigon manwl ac ennill yr holl farciau sydd ar gael. Bydd angen i chi allu esbonio, dadansoddi, gwerthuso a dod i gasgliadau o ran y ffordd y gall y testun a ddewiswyd gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Tasgau

Darllenwch y wybodaeth a'r tasgau yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sy'n ofynnol.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

Tasg 1

Ysgrifennwch gyflwyniad i'ch ymchwiliad estynedig.

Amlinellwch y canlynol:

- y prif feysydd ffocws rydych wedi dewis ymchwilio iddynt mewn perthynas â'r testun o'ch dewis
- pam rydych wedi dewis y testun a'r meysydd ffocws; efallai yr hoffech gyfeirio at ddiddordeb personol, cynnwys a addysgwyd, gweithgareddau ymgysylltu â'r sector a lleoliad gwaith y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd gennych
- y ffynonellau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r gwaith o ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws.

[9 marc]

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 450 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

Tasg 2

Trafodwch y ffordd y mae'r testun a'r meysydd ffocws o'ch dewis yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- y ffordd y mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- amrywiaeth o'ch safbwyntiau chi a/neu safbwyntiau eraill
- enghreifftiau priodol o theori a/neu ymarfer er mwyn cefnogi eich trafodaeth
- y ffordd y mae damcaniaethau/deddfwriaeth briodol neu fframweithiau (fel sy'n briodol) wedi effeithio ar y testun a'r meysydd ffocws
- cyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy i gefnogi tystiolaeth.

[30 marc]

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 1,500 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

Tasg 3

Gwerthuswch y ffordd y mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n ategu'r testun a'r meysydd ffocws o'ch dewis yn cael eu defnyddio'n ymarferol i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Gallai eich tystiolaeth gynnwys cyfeiriad at:

- cyfathrebu effeithiol
- gwaith tîm a chydweithio
- cydraddoldeb/cynhwysiant/amrywiaeth
- rhyddid i gyfranogi
- cynnal hawliau plant
- sgiliau proffesiynol neu unrhyw beth priodol arall.

[15 marc]

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 750 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

Tasg 4

Ystyriwch y ffordd y mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau (fel sy'n briodol) wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys cysylltiadau clir â'r ffordd y mae'r damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliadau y mae gennych brofiad ohonynt. [14 marc]

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 700 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

Tasg 5

Aseswch sut y gellir defnyddio gwybodaeth am y testun o'ch dewis a damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig i gyflwyno newid mewn darpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21^{ain} ganrif yng Nghymru.

Rhaid i'ch tystiolaeth:

- dangos ymwybyddiaeth o ddulliau ymarfer newydd a rhai sy'n datblygu
- cyfeirio at ystod o leoliadau yn y sector
- llunio barn sy'n cysylltu ymarfer a theori (ffocws y testun, damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig)
- gynnig awgrymiadau ar gyfer newid yn y dyfodol y gellid ei fabwysiadu'n ymarferol er mwyn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae'n **rhaid** i dystiolaeth gyfeirio at waith ymchwil a wnaed ac mae'n **rhaid** iddo gyfeirio at brofiadau ymarferol. [20 marc]

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 1,000 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

Tasg 6

Trafodwch sut y bydd eich ymchwil a'ch dysgu yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun wrth symud ymlaen.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- ystyriaeth o werth neu fanteision yr hyn a ddysgoch fel rhan o ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws
- yr hyn yr hoffech ei wneud, yn seiliedig ar eich canfyddiadau, i wella eich ymarfer eich hun yn y dyfodol
- cyfeiriad at unrhyw effaith y gallai newidiadau i'ch ymarfer eich hun eu cael ar ymarfer eraill. [12 marc]

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 600 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan				Rhif yr Ymgeisydd			
					0			



LEFEL 3

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru

**DEUNYDD ASESU ALLANOL ENGHREIFFTIOL
(Ymchwiliad Estynedig)**

At ddefnydd yr Arholwr yn unig		
Tasg	Uchafswm Marc	Marc a Ddyfarnwyd
1	9	
2	30	
3	15	
4	14	
5	20	
6	12	
Cyfanswm	100	100



Grid marcio: at ddefnydd tîm arholi CBAC yn unig.

Mae'r grid isod yn darparu disgrifiadau rhesymol y dylid eu defnyddio i gyfiawnhau'r marc a ddyfernir ar gyfer pob tasg y rhoddir cynnig arni. Mae angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ar gyfer pob tasg er mwyn manteisio ar yr holl farciau sydd ar gael. Serch hynny, os caiff tystiolaeth ei chynnwys y tu hwnt i benawdau tasgau penodol, gellir dyfarnu marciau lle y bo'n gymwys. Bydd yr arholwr yn dod i gasgliadau dilys o ran pa farciau i'w dyfarnu drwy gyfeirio at y canllawiau ar roi marciau a welir yn y grid asesu a'r sgrïptiau y cytunwyd arnynt yn ystod y sesiwn safoni.

Tasg 1: Ysgrifennwch gyflwyniad i'ch ymchwiliad estynedig. [9]			
AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.			
Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Band Marciau 4
<p>Rhowch 1-2 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Amlinelliad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o'r prif feysydd ffocws a ddewiswyd. Amlinelliad cyfyngedig o pam y dewiswyd y testun a'r meysydd ffocws. Cyfeiriadau cyfyngedig at y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd. Nifer cyfyngedig o ffynonellau wedi'u nodi. 	<p>Rhowch 3-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Amlinelliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r prif feysydd ffocws a ddewiswyd. Amlinelliad sylfaenol o pam y dewiswyd y testun a'r meysydd ffocws, gall gyfeirio at theori ac ymarfer. Cyfeiriadau sylfaenol at y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd. Ystod fach o ffynonellau wedi'u nodi, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau. 	<p>Rhowch 5-7 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Amlinelliad da yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r prif feysydd ffocws a ddewiswyd. Amlinelliad da o pam y dewiswyd y testun a'r meysydd ffocws, gall gyfeirio at theori ac ymarfer. Cyfeiriadau da at y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd. Ystod o ffynonellau wedi'u nodi, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau gyda rhywfaint o esboniad o pam y cawsant eu dewis. 	<p>Rhowch 8-9 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Amlinelliad ardderchog yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r prif feysydd ffocws a ddewiswyd. Amlinelliad rhagorol o pam y dewiswyd y testun a'r meysydd ffocws; cyfeiriadau at theori ac ymarfer. Cyfeiriadau rhagorol at yr ymchwil a ddefnyddiwyd. Ystod o ffynonellau wedi'u nodi, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau, gydag esboniad o sut y cânt eu defnyddio.
Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.			

Tasg 2: Trafodwch y ffordd y mae'r testun a'r meysydd ffocws o'ch dewis yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. [30]

AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi ymarfer seiliedig ar dystiolaeth (eich ymarfer eich hun, neu ymarfer eraill) gyda gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Band Marciau 4	Band Marciau 5
<p>Rhowch 1-6 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r drafodaeth yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r ffordd y mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Cyfeiriadau cyfyngedig at eu safbwynt eu hunain a/neu safbwynt eraill. Mae'r ymateb yn gyfyngedig, ac nid yw'n cynnwys enghreifftiau priodol o theori a/neu ymarfer er mwyn cefnogi'r drafodaeth. Cyfeiriadau cyfyngedig at ddamcaniaethau/deddfwriaeth berthnasol neu fframweithiau fel sy'n briodol. Cyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy cyfyngedig yn cael eu defnyddio i gefnogi tystiolaeth. 	<p>Rhowch 7-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r drafodaeth yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r ffordd y mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Cyfeiriadau sylfaenol at eu safbwynt eu hunain a/neu safbwynt eraill. Mae'r ymateb yn sylfaenol ac mae'n cynnwys nifer gyfyngedig o enghreifftiau priodol o theori a/neu ymarfer er mwyn cefnogi'r drafodaeth. Cyfeiriadau sylfaenol at ddamcaniaethau/deddfwriaeth berthnasol neu fframweithiau fel sy'n briodol. Detholiad sylfaenol o gyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy wedi'i ddefnyddio i gefnogi tystiolaeth. 	<p>Rhowch 13-18 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r drafodaeth yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o'r ffordd y mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Cyfeiriadau boddhaol at eu safbwynt eu hunain a/neu safbwynt eraill. Mae'r ymateb yn foddhaol, ac mae'n cynnwys rhai enghreifftiau priodol o theori a/neu ymarfer er mwyn cefnogi'r drafodaeth. Cyfeiriadau boddhaol at ddamcaniaethau/deddfwriaeth berthnasol neu fframweithiau fel sy'n briodol. Detholiad boddhaol o gyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy wedi'i ddefnyddio i gefnogi tystiolaeth. 	<p>Rhowch 19-24 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Cyfeiriadau da at eu safbwynt eu hunain a/neu safbwynt eraill. Mae'r ymateb yn dda ac mae'n cynnwys nifer o enghreifftiau priodol o theori a/neu ymarfer er mwyn cefnogi'r drafodaeth. Cyfeiriadau da at ddamcaniaethau/deddfwriaeth berthnasol neu fframweithiau fel sy'n briodol. Detholiad da o gyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy wedi'i ddefnyddio i gefnogi tystiolaeth. 	<p>Rhowch 25-30 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r drafodaeth yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r ffordd y mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Cyfeiriadau rhagorol at eu safbwynt eu hunain a/neu safbwynt eraill. Mae'r ymateb yn rhagorol ac mae'n cynnwys nifer o enghreifftiau priodol o theori a/neu ymarfer sydd wedi cael eu defnyddio er mwyn cefnogi'r drafodaeth. Cyfeiriadau rhagorol at ddamcaniaethau/deddfwriaeth berthnasol neu fframweithiau fel sy'n briodol. Detholiad rhagorol o gyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy wedi'i ddefnyddio i gefnogi tystiolaeth.

Tasg 3: Gwerthuswch y ffordd y mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n ategu'r testun a'r meysydd ffocws o'ch dewis yn cael eu defnyddio'n ymarferol i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. [15]

AA3: Ymchwilio i a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer.

Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Band Marciau 4
<p>Rhowch 1-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwerthusiad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o'r ffordd y caiff y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n ategu'r meysydd testun a'r meysydd ffocws a ddewiswyd eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant mewn lleoliadau. 	<p>Rhowch 5-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwerthusiad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r ffordd y caiff y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n ategu'r meysydd testun a'r meysydd ffocws a ddewiswyd eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant mewn lleoliadau. 	<p>Rhowch 9-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwerthusiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ffordd y caiff y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n ategu'r meysydd testun a'r meysydd ffocws a ddewiswyd eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant mewn lleoliadau. 	<p>Rhowch 13-15 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwerthusiad rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r ffordd y caiff y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n ategu'r meysydd testun a'r meysydd ffocws a ddewiswyd eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant mewn lleoliadau.
<p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p>			

Tasg 4: Ystyriwch y ffordd y mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau (fel sy'n briodol) wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. [14]

AA3: Ymchwilio i ddamcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a'u gwerthuso.

Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Band Marciau 4
<p>Rhowch 1-3 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyriaeth gyfyngedig o'r ffordd y mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. • Dehongliad cyfyngedig yn amlwg. • Cyfeiriadau cyfyngedig at y lleoliadau y mae ganddynt brofiad ohonynt. • Cyfeiriadau cyfyngedig at ddylanwad ar ymarfer proffesiynol. 	<p>Rhowch 4-7 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyriaeth sylfaenol o'r ffordd y mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. • Dehongliad sylfaenol yn amlwg. • Cyfeiriadau sylfaenol at y lleoliadau y mae ganddynt brofiad ohonynt. • Cyfeiriadau sylfaenol at ddylanwad ar ymarfer proffesiynol. 	<p>Rhowch 8-11 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyriaeth dda o'r ffordd y mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. • Dehongliad da yn amlwg. • Cyfeiriadau da at y lleoliadau y mae ganddynt brofiad ohonynt. • Cyfeiriadau da at ddylanwad ar ymarfer proffesiynol. 	<p>Rhowch 12-14 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyriaeth ragorol o'r ffordd y mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. • Dehongliad rhagorol yn amlwg. • Cyfeiriadau rhagorol at y lleoliadau y mae ganddynt brofiad ohonynt. • Cyfeiriadau rhagorol at ddylanwad ar ymarfer proffesiynol.
<p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p>			

Tasg 5: Aseswch sut y gellir defnyddio gwybodaeth am y testun o'ch dewis a damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig i gyflwyno newid mewn darpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru. [20]

AA3: Ymchwilio i ddamcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a'u gwerthuso.

Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Band Marciau 4	Band Marciau 5
<p>Rhowch 1-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesiad cyfyngedig o'r ffordd y gall y testun a ddewiswyd a damcaniaethau perthnasol gael eu defnyddio i wneud newid mewn darpariaeth gofal plant yn yr 21^{ain} ganrif yng Nghymru. Cyfeiriadau cyfyngedig at ddamcaniaethau, dulliau ymarfer newydd a rhai sy'n datblygu a deddfwriaeth. Cyfeiriadau cyfyngedig at leoliadau yn y sector. Dyfarniadau cyfyngedig wedi'u gwneud sy'n cysylltu ymarfer a theori. Awgrymiadau cyfyngedig wedi'u gwneud ar gyfer newid yn y dyfodol. 	<p>Rhowch 5-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesiad sylfaenol o'r ffordd y gall y testun a ddewiswyd a damcaniaethau perthnasol gael eu defnyddio i wneud newid mewn darpariaeth gofal plant yn yr 21^{ain} ganrif yng Nghymru. Cyfeiriad sylfaenol at ddamcaniaethau, dulliau ymarfer newydd a rhai sy'n datblygu a deddfwriaeth. Cyfeiriad sylfaenol at leoliadau yn y sector. Dyfarniadau sylfaenol wedi'u gwneud sy'n cysylltu ymarfer a theori. Awgrymiadau sylfaenol wedi'u gwneud ar gyfer newid yn y dyfodol. 	<p>Rhowch 9-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesiad boddhaol o'r ffordd y gall y testun a ddewiswyd a damcaniaethau perthnasol gael eu defnyddio i wneud newid mewn darpariaeth gofal plant yn yr 21^{ain} ganrif yng Nghymru. Cyfeiriadau boddhaol at ddamcaniaethau, dulliau ymarfer newydd a rhai sy'n datblygu a deddfwriaeth. Cyfeiriadau boddhaol at leoliadau yn y sector. Dyfarniadau boddhaol wedi'u gwneud sy'n cysylltu ymarfer a theori. Awgrymiadau boddhaol wedi'u gwneud ar gyfer newid yn y dyfodol. 	<p>Rhowch 13-16 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesiad da o'r ffordd y gall y testun a ddewiswyd a damcaniaethau perthnasol gael eu defnyddio i wneud newid mewn darpariaeth gofal plant yn yr 21^{ain} ganrif yng Nghymru. Cyfeiriadau da at ddamcaniaethau, dulliau ymarfer newydd a rhai sy'n datblygu a deddfwriaeth. Cyfeiriadau da at leoliadau yn y sector. Dyfarniadau da wedi'u gwneud sy'n cysylltu ymarfer a theori. Awgrymiadau da wedi'u gwneud ar gyfer newid yn y dyfodol. 	<p>Rhowch 17-20 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesiad rhagorol o'r ffordd y gall y testun a ddewiswyd a damcaniaethau perthnasol gael eu defnyddio i wneud newid mewn darpariaeth gofal plant yn yr 21^{ain} ganrif yng Nghymru. Cyfeiriadau rhagorol at ddamcaniaethau, dulliau ymarfer newydd a rhai sy'n datblygu a deddfwriaeth. Cyfeiriadau rhagorol at leoliadau yn y sector. Dyfarniadau rhagorol wedi'u gwneud sy'n cysylltu ymarfer a theori. Awgrymiadau rhagorol wedi'u gwneud ar gyfer newid yn y dyfodol.

Tasg 6: Trafodwch sut y bydd eich ymchwil a'ch dysgu yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun wrth symud ymlaen.

[12]

AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi ymarfer seiliedig ar dystiolaeth (eich ymarfer eich hun, neu ymarfer eraill) gyda gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3	Band Marciau 4
<p>Rhowch 1-3 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfeiriadau cyfyngedig at werth a budd yr hyn a ddysgwyd. • Trafodaeth gyfyngedig ar y ffordd y bydd yr ymchwil a'r hyn a ddysgwyd yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun wrth symud ymlaen. • Awgrymiadau cyfyngedig wedi'u gwneud ar y ffordd y gallai ymarfer newid wrth symud ymlaen, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ymarfer eraill. • Defnydd cyfyngedig o wybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â sut y gall gwybodaeth lywio ymarfer proffesiynol. 	<p>Rhowch 4-6 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfeiriadau sylfaenol at werth a budd yr hyn a ddysgwyd. • Trafodaeth sylfaenol ar y ffordd y bydd yr ymchwil a'r hyn a ddysgwyd yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun wrth symud ymlaen. • Awgrymiadau sylfaenol wedi'u gwneud ar y ffordd y gallai ymarfer newid wrth symud ymlaen, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ymarfer eraill. • Defnydd sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â sut y gall gwybodaeth lywio ymarfer proffesiynol. 	<p>Rhowch 7-9 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfeiriadau da at werth a budd yr hyn a ddysgwyd. • Trafodaeth dda ar y ffordd y bydd yr ymchwil a'r hyn a ddysgwyd yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun wrth symud ymlaen. • Awgrymiadau da wedi'u gwneud ar y ffordd y gallai ymarfer newid wrth symud ymlaen, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ymarfer eraill. • Defnydd da o wybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â sut y gall gwybodaeth lywio ymarfer proffesiynol. 	<p>Rhowch 10-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfeiriadau rhagorol at werth a budd yr hyn a ddysgwyd. • Trafodaeth ragorol ar y ffordd y bydd yr ymchwil a'r hyn a ddysgwyd yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun wrth symud ymlaen. • Awgrymiadau rhagorol wedi'u gwneud ar y ffordd y gallai ymarfer newid wrth symud ymlaen, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ymarfer eraill. • Defnydd rhagorol o wybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â sut y gall gwybodaeth lywio ymarfer proffesiynol.
<p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p>			

Aseiniad Ymchwil Estynedig – Aseiad Allanol

Canllawiau'r Cynllun Marcio ar Ddefnyddio'r Gridiau Asesu

- Mae ymgeiswyr yn ymateb i dasgau penodol y gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw destun. Ceir manylion y rhain yn y pecyn asesu.
- Dylid sefydlu'r band marciau priodol neu bob tasg drwy benderfynu pa ddisgrifiydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid sefydlu'r marc priodol drwy benderfynu i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol – wedi bodloni'n llwyr (rhan uchaf y band), wedi bodloni'n gadarn (canol y band), prin wedi bodloni (rhan isaf y band).
- Gall y marc a ddyfernir ar gyfer pob tasg adlewyrchu perfformiad ar fandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu gwahanol. Er enghraifft, gall ymgeisydd gyflawni band marciau 4 ar gyfer tasgau AA1 ond dim ond band marciau 2 ar gyfer tasgau AA3.
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u llunio i gynorthwyo'r broses farcio trwy nodi lefelau unigol o gyflawniad ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau gradd.
- Mae'n rhaid rhoi 0 marc i ymgeiswyr nad ydynt yn cyflwyno tystiolaeth ar gyfer unrhyw dasg.
- Nid oes cosb ychwanegol am waith sydd o dan y cyfyngiadau a nodir o ran amser a gaiff ei dreulio ar yr aseiad (15 awr) gan y bydd hyn yn arwain at gosbi eich hun.
- Os yw tystiolaeth ar gyfer **pob** tasg a osodwyd yn mynd yn fwy na'r cyfyngiad uwch ar gyfer lwfansau geiriau, sef 5,000 yn ogystal â 10% fel y nodwyd yn yr aseiad, ni ddylai'r arholwr farcio'r gwaith ychwanegol oherwydd dim ond gwaith sydd o fewn y cyfyngiadau a bennwyd ar gyfer amser a hyd sy'n gallu ennill marciau i ymgeiswyr. Nid yw hyn yn berthnasol i'r cyfrif geiriau a awgrymwyd ar gyfer y tasgau unigol – mae cyfanswm y marciau yn cronni.
- Rhaid cyfeirio at y safonau y cytunwyd arnynt gan ddefnyddio'r sgrïptiau safoni yn ystod y cynadleddau arholwyr er mwyn cynnal cysondeb drwy gydol y cyfnod marcio.

Dogfen Fapio

Ymchwiliad Estynedig				
Tasg	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
1	9			9
2		30		30
3			15	15
4			14	14
5			20	20
6		12		12
Cyfanswm marciau	9	42	49	100
% pwysoli'r asesiad hwn	9%	42%	49%	100%